# Gwaelod y Garth

Cylchlythyr Wythnosol / Weekly Newsletter

**13.12.24**




## Sioe Nadolig! Christmas Show time!

Mae hi wedi bod yn wythnos arbennig iawn yma yn yr ysgol! Wedi wythnosau o baratoi roedd hi'n hyfryd gallu gwahodd teulu a ffrindiau i wylio perfformiadau ein Sioe Nadolig. Am Sioe ac am berfformiadau gwefreiddiol! O'r canu i'r llefaru i'r actio a'r dawnsio, mae ein balchder yn byrlymu! Mae ambell lun o'r perfformiadau isod a mwy i'w gweld ar Instagram, SeeSaw a Google Classrooms.

Rwyf yn awyddus iawn i nodi diolch i'r staff am eu hymroddiad a'u gwaith diflino yn paratoi a chynllunio'r Sioe eleni. Nid ar chwarae bach mae cyrraedd y fath safon. Mae yma dîm arbennig iawn o staff yn cydweithio'n agos i sicrhau bod pob un plentyn yn gallu cymryd rhan a phob un yn mwynhau'r profiad. Diolch o waelod calon i bob un. Diolch hefyd i chi fel rhieni am nodi eich diolch i'r staff, boed ar lafar, ar Instagram neu fel arall. Mae clywed a gweld y sylwadau yn golygu dipyn i bob un ohonom.

Mae dathliadau'r Nadolig wedi parhau yn yr ysgol heddiw wrth i ni gael ein cinio Nadolig a gwisgo siwmperi Nadolig. Mae'n amserol i ni felly estyn ein diolch i staff y gegin am ein Cinio heddiw ond hefyd am giniawau gydol y flwyddyn – diolch!

Gydag wythnos i fynd cyn diwedd tymor, penwythnos hapus iawn i bawb!

- - - - - - - -

What a special week! After weeks of practice we were delightful to be able to invite family and friends to watch three special performances of our Christmas Show. What a show! Simply superb! We are proud of every one of our performers, from the youngest child to the oldest pupils, and from the singing to the recitation to the acting and dancing. You will find a few photos of the performances below and there are more on Instagram, SeeSaw and Google Classrooms.

I am very keen to note a huge diolch to the staff for their dedicated and tireless work in preparing and planning this year's show. Such performances do not happen without a great deal of hard work. We have a very special team of staff who work closely to ensure that every single child can take part and enjoy the experience. From the bottom of my heart, diolch. Thank you also to you as parents for reaching out to pass on your thanks to the staff, whether verbally, on Instagram or otherwise. Hearing and seeing your gratitude comments means so much to us all.

Christmas celebrations continued at school today as we had our Christmas dinner in our festive jumpers. Whilst it is timely for us to extend our thanks to the kitchen staff for our Christmas Dinner we also wish to say thank you to the kitchen staff for their work, support and care throughout the year – diolch!

With one week to go until the end of term – here's wishing you all a lovely weekend!

## Dyddiadau Pwysig *Important Dates*

**17.12.24**
Theatr y Sherman (Meithrin)
Sherman Theatre (Nursery)

**18.12.24**
Sherman Theatre (2E)

**18.12.24** (1.30 – 3pm)
Gweithdy rhieni Meithrin
Nursery parents' workshop

**19.12.24**
Sioe Cyw (Derbyn)

**20.12.24**
Diwrnod ola'r tymor
Last day of term

**6.1.25**
Diwrnod HMS
INSET day

Cofiwch hefyd am ein calendr byw sydd ar gael i'w lawrlwytho ar dudalen cartref gwefan yr ysgol.

Our live calendar is available to download on our school website's homepage.






Disgyblion Blwyddyn 5 yn derbyn eu gwaith crefftio Nadolig gan Merched Dydd Gwener – Diolch!

Year 5 pupils had received their crafting Christmas crafts from the Friday Girls – diolch!


451
472


457
445
451
472




457
445
451
472
SONIC
CHRISTMAS
MERRY
PIC•COLLAGE






PIC•COLLAGE







